Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Ty Baltig House, Sgwar Mount Stuart,
Bae Caerdydd, CF10 5FH
Lein Gymorth 0800 2888 329 www.wcva.org.uk

Hyfforddiant: Prisio'ch cynnig er mwyn ennill™

Dewch i ddosbarth meistr ar dendro - Prisio'ch cynnig er mwyn ennill™, a gynhelir gan WCVA ar y cyd â DHRInterim, a rhoi mwy o siawns i chi ennill contractau'r sector cyhoeddus.

- 25 Ionawr 2011 – Casnewydd
- 26 Ionawr 2011 – Y Rhyl

Wrth ddod i'r gweithdy meithrin sgiliau ½ diwrnod hwn, bydd pobl yn cael cyfle i wneud y canlynol:

- Dysgu sut bydd y diffyg yn y sector cyhoeddus yn effeithio ar brisio tendrau
- Sut beth yw strwythur prisio llwyddiannus yn y sector cyhoeddus
- Pa ffactorau sy'n dylanwadu ar lwyddiant prisio
- Sut mae prisio'ch cynnig yn yr 'oes o galedi'
- Sicrhau mantais gystadleuol dros eich cystadleuwyr

Mae'r gweithdy ar gyfer yr unigolion a'r mudiadau rheng-flaen hynny **nad ydynt yn newydd i'r broses tendro**; rheini sydd wedi tendro rhywfaint ac wedi gweld bod angen iddynt wella eu sgiliau a'u gallu yn y maes hwn. Rhagwelir y bydd galw mawr am le – am wybodaeth bellach neu i fwcio lle gwelwch www.sustainablefundingcymru.org.uk/events neu cysylltwch â Lein Gymorth WCVA ar 0800 2888 329 neu help@wcva.org.uk.

Disgownt o 50 y cant - yn arbennig i aelodau WCVA

Wrth i fwy o fudiadau chwilio am ddulliau newydd o godi arian ac wrth i gefnogwyr bryderu mwy ynghylch tryloywder, mae hi'n bwysicach nag erioed ceisio tawelu eu meddwl bod eich mudiad yn ymrwymedig i'r arfer gorau wrth godi arian.

Yn ôl ymchwil, dengys hefyd fod gan 62 y cant o gefnogwyr fwy o ymddiriedaeth a ffydd pan fyddant yn gweld logo tic Bwrdd Safonau Codi Arian ar ddeunyddiau elusen, a byddai 35 y cant yn rhoi mwy i elusen sy'n aelod o'r Bwrdd yna.

O 1 Tachwedd 2010 bydd Bwrdd Safonau Codi Arian yn cynnig disgownt o 50 y cant i aelodau WCVA ar eu ffi ymaelodi flynyddol gyntaf. Mae dwy ffordd o wneud cais ac mae'n syml:

- Ar-lein yn www.frsb.org.uk/wcva neu,
- Drwy ffonio'n uniongyrchol ar 0845 402 5442 gan ddyfynnu Cynnig WCVA.

Mae dros 1,250 o elusennau codi arian yn y DU yn aelodau o gynllun Bwrdd Safonau Codi Arian ar hyn o bryd. Dyma rai o fanteision y cynllun:

- Mwy o ymddiriedaeth a hygrededd yn gysylltiedig â thic Bwrdd Safonau Codi Arian Rhowch gyda Hyder.
- Mwy o dryloywder gan broses cwynion Bwrdd Safonau Codi Arian.
- Cyfleoedd allweddol i rwydweithio gyda'r enwau mwyaf ym maes codi arian i elusennau.
- Gweithdai a chynadleddau.
- Rhannu'r arfer gorau ar gyfer codi arian.

Am fwy o wybodaeth, ewch i www.frsb.org.uk neu cysylltwch â Simon Boex, Rheolwr Bwrdd Safonau Codi Arian yng Nghymru, ar 0845 026 8931, 07875 718482, simonb@frsb.org.uk.

Gwahodd grwpiau'r trydydd sector i wneud cais am arian Miliynau'r Bobl y Jiwbilî

Anogir grwpiau i gyflwyno eu hawliad am £60,000 o arian y Loteri Fawr, a ddaw ar gael fel rhan o Filiynau'r Bobl y Jiwbilî.

Wedi'i lansio ar 26 Tachwedd, bydd Miliynau'r Bobl y Jiwbilî'n ehangu'r grantiau loteri sydd ar gael ledled y DU, yn cynnwys pedwar yng Nghymru. Mae grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol wedi derbyn gwahoddiad i wneud cais am eu cyfran hwy o gronfa achosion da'r Gronfa Loteri Fawr, sy'n werth £3.6 miliwn. Bydd rhestr fer o grwpiau'n cael ei llunio wedyn, ac yna tynnir sylw at y mudiadau ar y rhestr fer ar raglenni a newyddion rhanbarthol ITV. Yn dilyn hyn, bydd y cyhoedd yn cael gwahoddiad i bleidleisio dros y grwpiau sydd fwyaf teilwng, yn eu tyb hwy, o gyfran o'r arian.

Ymhlith y rhai sydd wedi elwa yn y gorffennol yng Nghymru o Filiynau'r Bobl mae Prosiect Gerddi Cymunedol Gogledd Cymru, a dderbyniodd arian yn 2009. Meddai Anna Williams, aelod o'r Prosiect: 'Mae hon yn ffordd wych o helpu i ddathlu Jiwbilî Diemwnt y Frenhines ac i gymunedau ddod at ei gilydd i fod o fudd i bobl leol, felly hoffwn annog grwpiau cymunedol Cymru i wneud cais.'

Ceir manylion am sut i wneud cais am Filiynau'r Bobl y Jiwbilî yn www.biglotteryfund.org.uk/welsh/wales neu drwy ffonio 0845 10 20 30. Mae gan grwpiau hyd at 4 Chwefror 2011 i gyflwyno eu ceisiadau. Cyhoeddir enwau'r grwpiau ar y rhestr fer ddechrau fis Mehefin a bydd y cyhoedd yn pleidleisio rhwng 27 a 30 Mehefin. Wedyn, bydd yr arian yn cael ei neilltuo i'r grwpiau buddugol er mwyn iddynt fod yn gwbl weithredol cyn blwyddyn y Jiwbilî Diemwnt yn 2012.

Ceisiwch nawr am grantiau i fyny at £5,000

Mae cyllid ar gael o hyd drwy Gronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf 2010/2011.

Gellir dyfarnu grantiau hyd at £5,000 ar gyfer unrhyw fath o weithgarwch sy'n cynnwys pobl leol o ardal Cymunedau yn Gyntaf!

Caiff eich grwp wneud cais os yw'r canlynol yn berthnasol:
• Rydych chi'n fudiad bychan dan arweiniad y gymuned ac rydych yn grwp di-elw;
• Mae'r prosiect yn rhoi rhyw fath o fudd cymdeithasol, diwylliannol, economaidd neu amgylcheddol.

Cofiwch:
• Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn ceisiadau yw dydd Gwener 31 Ionawr 2011.
• Ni allwch wneud cais am yr un eitemau / eitemau tebyg neu am yr union brosiect a gafodd arian yn flaenorol gan y Gronfa Ymddiriedolaeth.

I gael rhagor o wybodaeth neu becyn ymgeisio, cysylltwch â Llinell Gymorth Cymunedau yn Gyntaf ar 0800 587 8898 neu help@wcva.org.uk.

Deddf Cadw Data 1998. Cedwir a phrosesir manylion cysylltu pob un sy'n derbyn yr Atodiad Cenedlaethol gan WCVA ar gyfrifiadur. Defnyddir y wybodaeth gan WCVA i fonitro a hyrwyddo'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Datgelir manylion cysylltu i drydydd parti i fod o gymorth yn y broses hwn.

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Prif Swyddfa - Ty Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH, elusen gofrestredig rhi 218093, cwmni cyfyngedig drwy warant 425299, wedi ei gofrestru yng Nghymru.